**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 10 CHWEFROR 2021 DYDD MERCHER, 10 CHWEFROR 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: J. HILL (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cook
G. L. Davies
K. Hayden
S. Healy
W. Hodgins
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Rowson
B. Willis

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.C. Morgan. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd y datganiad dilynol o fuddiant:<br>Cynghorydd W. Hodgins – Eitem Rhif 6 Rhaglen Rhannu Prentisiaeth Anelu'n Uchel | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 6 IONAWR 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o cyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr,<br><br>*<u>Blaenraglen Gwaith (Truck Shop, Tredegar)</u>*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Adfywio y cafwyd cytundeb 'mewn egwyddor' gan CADW i ddymchwel rhannau o'r adeilad.<br><br>*<u>TVR</u>*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn arall, cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y byddai adeilad y Bwrdd Technoleg yn cael ei ailwampio beth bynnag. Deallai fod TVR yn ceisio cyllid ychwanegol o'r sector preifat a byddai'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn ailwampio adeilad y Bwrdd Technoleg yn rhoi rhywfaint o hyder i gyllidwyr sector preifat. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog y cafodd cryn dipyn o ddiddordeb ei fynegi yn yr adeilad pe na bai'r TVR yn dod i ffrwyth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>RHAGLEN RHANNU PRENTISIAETH ANELU'N UCHEL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Datblygu Sgiliau.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Sgiliau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar berfformiad y rhaglen Anelu'n Uchel ac ymgysylltu allanol cysylltiedig â busnes, a'r wybodaeth perfformiad ar raglen | |

prentisiaeth fewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo. Hyd yma mae Rhaglen Rhannu Prentisiaeth Anelu'n Uchel wedi:

- Recriwtio a chefnogi 84 prentis a gafodd eu lleoli mewn dros 20 o gwmnïau gweithgynhyrchu ar draws Blaenau Gwent yn ogystal â chyflogi 10 prentis o fewn adrannau'r Cyngor.
- Mae 51% o brentisiaid o fewn Cohortau 1 a 2 (2015 a 2016) wedi symud ymlaen i addysg uwch/HNC.
- Cafodd 100% o'r prentisiaid yn Cohort 1 eu cyflogi, gyda 67% wedi eu cadw gan y cyflogwr a'u noddodd.
- Fframwaith a gwblhawyd: Cohort 1 – 83%, Cohort 2 – 79%.
- Cafodd 100% o brentisiaid yng nghohortau 1-5 gyfle i symud i gwmni arall i gyflawni bylchau sgiliau.

Yn 2020, cafodd 17 prentis eu rhoi ar ffyrlo oherwydd Covid. Hwn oedd y nifer uchaf ar unrhyw amser gyda rhai prentisiaid yn cael eu rhoi yn hirach na rhai eraill. Y flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn oedd cefnogi'r prentisiaid a'u helpu i barhau eu dysgu drwy'r coleg, fel arfer wersi rhithiol a pharhau â gwaith NVQ lle'n bosibl. Yn ychwanegol, mae Tîm Anelu'n Uchel yn eu cefnogi gyda'u hiechyd a'u llesiant i'w llywio drwy gyfnodau ansicr gydag anogaeth a chyfathrebu agored.

Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw brentisiaid ar raglen Anelu'n Uchel wedi colli eu swyddi yn ystod y cyfnod hwn a'u bod i gyd wedi dychwelyd i'w gweithleoedd. Teimlwyd fod y gefnogaeth a roddwyd i brentisiaid gan dîm rhaglen Anelu'n Uchel ynghyd â chyflogwyr wedi hwyluso'r deilliant hwn.

Canmolodd Aelod yr adroddiad a dywedodd ei bod yn dda gweld Anelu'n Uchel yn cael cydnabyddiaeth ledled Cymru. Gofynnodd wedyn os oedd Tai Calon wedi cymryd unrhyw brentisiaid.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y cynhaliwyd trafodaethau gyda Tai Calon ar y rhaglen Hyfforddeiaeth Gorfforaethol. Dywedodd i Anelu'n Uchel gael ei sefydlu i ddechrau i hwyluso prentisiaethau gweithgynhyrchu a pheirianneg, ac mae llawer o'r sgiliau a gynigir gan Tai Calon yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, gwyddai fod 2 neu 3 o bobl ar y Rhaglen Hyfforddeiaeth Genedlaethol wedi symud ymlaen i brentisiaeth drwy'r llwybrau hynny. Byddid hefyd yn ymgysylltu

gyda Rhaglen Hyfforddiaethau Prentisiaeth Sir Fynwy gan fod ganddynt y sgiliau gyda CITB i hwyluso'r maes hwnnw o ddysgu. Yn nhermau prentisiaethau eraill o safbwynt mewnol, cynhaliwyd trafodaethau gyda ALT i dynnu sylw at unrhyw gyfleoedd a all godi.

Cyfeiriodd Aelod at y ffaith mai gwrywod yw 91% o'r 30 prentis, a 9% yn fenywod, a gofynnodd sut mae hyn yn cymharu gyda'r sefyllfa ledled Cymru.

Esboniodd y Swyddog ei fod yn dibynnu ar y sector. Dynion yw'r rhan fwyaf o ddigon o'r gweithwyr mewn gweithgynhyrchu a pheirianneg ac mae Blaenau Gwent yn debyg i awdurdodau lleol eraill. Yn nhermau prentisiaethau ar draws Cymru mae dull gweithredu mwy cytbwys gyda phrentisiaethau i fenywod, a sefydlwyd llawer o gynlluniau i annog mwy o fenywod i'r diwydiant.

Yn nhermau prentisiaethau o fewn y Cyngor, cadarnhaodd y Swyddog o'r 10 a recriwtiwyd, bod 1 yn fenyw ac yn gweithio ar lwybr peirianneg o fewn Gwasanaethau Technegol, sy'n rhagorol. Dywedodd ei fod yn ymwneud â sicrhau ein bod yn mynd i mewn i ysgolion ar gam cynnar i dynnu sylw at gyfleoedd a dangos y gwahanol setiau sgiliau sydd eu hangen i ddenu mwy o fenywod i brentisiaethau.

Gofynnodd Aelod am fwy o eglurhad ar yr adolygiad o lwybrau tai a digidol.

Mewn ymateb esboniodd y Swyddog fod hyn yn dangos ein bod wedi gweithio gyda'r timau Digidol a Thai i edrych ar lwybr prentisiaeth i gyflawni'r hyn sydd ei angen gan y timau hynny, a gweithio gyda swyddogion a cholegau lleol i ddynodi pa gymwysterau y gallai prentis ei ddilyn.

Dywedodd y Swyddog fod yn rhaid i sefydliad neu adran o'r Cyngor dalu am brentisiaeth yn y swydd ac weithiau nad oes cyllideb ar gael. O fewn y Cyngor, mae pob Adran wedi cynnal dadansoddiad o'r gyllideb i sicrhau y gallant fforddio prentisiaeth, nid yn unig i lenwi cyfle ar amser neilltuol ond i ddod yn weithwyr cyflogedig ar ddiwedd y rhaglen prentisiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Swyddog fod ymweliadau i ysgolion wedi eu hanelu at Gyfnod Allweddol 2 Blwyddyn 6 ar draws ysgolion cynradd ac yna ar Flwyddyn 8 gyda digwyddiad

| | | |
|---|---|---|
| | Ysbrydoli ar y cyd â Gyrfa Cymru a hefyd wasanaethau ar gyfer blwyddyn 10. Dywedodd mai'r bwriad yw dechrau cyfathrebu ar oedran ifanc, ond mae hyn yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, drwy bartneriaeth Cwm Technoleg mae'n awr hwylusydd STEM yn un o ysgolion cyfun y Fwrdeistref i alluogi ymgysylltu mwy cydlynus a chodi cyfleoedd wedyn.<br><br>Yng nghyswllt llwybrau tai a digidol, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod y rhaglen prentisiaeth yn weithgaredd corfforaethol ar draws y Cyngor a chadarnhaodd y caiff unrhyw gynigion ailstrwythuro eu herio i ganfod cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. Dywedodd y gallai cydweithwyr o fewn y Cyngor weld gwerth prentisiaethau wrth adeiladu ar gyfer y dyfodol a'i bod yn bwysig i'r Cyngor ddangos arweinyddiaeth ac arddangos gwerth yn y cyfleoedd a ddarparwn fel sefydliad.<br><br>I gloi, dywedodd y Rheolwr Datblygu Sgiliau ei bod yn Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau a bod llawer o astudiaethau achos ar gael i'w darllen ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi syniad o gynnydd pobl ifanc ar y rhaglen, a hefyd y Cyngor.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD; GRŴP GORCHWYL A GORFFEN CANOL TREFI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diwedddariad ar waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canol Trefi.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Cadarnhaodd y cynhaliwyd ail gyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 20 Ionawr 2021 pan gafodd y Grŵp gyflwyniad ar Grŵp Ymgynghori Tredegar sy'n cynnwys manylion sut y sefydlwyd y Grŵp Ymgynghori, sut y gweithredai a'i sut yr oedd wedi cefnogi Swyddogion Aelodau i gydweithio ar adfywio Tredegar.<br><br>Teimlai Aelodau y byddai'n fanteisiol ymchwilio posibilrwydd dyblygu'r dull gweithredu yn Nhredegar ar draws pob tref arall o | |

| | | |
|---|---|---|
| | fewn y Fwrdeistref a chytunodd Swyddogion i gefnogi Aelodau i ystyried yr opsiynau hyn a sefydlu'r grwpiau.<br><br>Diolchodd Aelod i'r Swyddog am ei gwaith ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a dywedodd y teimlai fod y Grŵp yn sicrhau cynnydd. Yng nghyswllt yr argymhellion i ddod â diweddariad yn ôl bob chwarter, awgrymodd y dylid dod â'r rhain i'r Pwyllgor Craffu lle mae angen.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer am amseriad y diweddariadau a roddir i'r Pwyllgor Craffu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi cynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a bod diweddariadau pellach yn cael eu derbyn fel sy'n briodol. | |
| **No. 8** | **<u>DEFNYDDIO YMGYNGHORWYR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol/Pennaeth Adfywio a Datblygu.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth y gofynnodd Aelodau amdani yng nghyswllt gwariant a wnaed yn ystod 2018/2019 a 2019/2020 ar ddefnydd ymgynghorwyr i gefnogi, atodi ac ategu gwaith Swyddogion ar draws y Cyngor.<br><br>Dywedodd y caiff ymgynghorwyr eu defnyddio'n helaeth ar draws yr holl sector cyhoeddus yn cynnwys Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol ddibenion a defnyddir ymgynghorwyr ym Mlaenau Gwent mewn nifer o ffyrdd, h.y.<br><br>• Rhoi cymorth mewn meysydd arbenigol lle nad oes fawr neu ddim arbenigedd neu brofiad o fewn y Cyngor<br>• Rhoi cyngor annibynnol a safbwynt gwahanol (her)<br>• Ategu adnoddau lle nad oes capasiti digonol i ymgymryd â thasg benodol a ddynodwyd e.e. oherwydd y daeth y gwaith i'r Cyngor yn annisgwyl neu lle bod angen datblygu'r gwaith o fewn cyfnod penodol/cyfyngedig.<br>• Rhoi hyfforddiant i staff Blaenau Gwent i wella eu harbenigedd eu hunain e.e. newidiadau i ddeddfwriaeth<br>• Roedd swm sylweddol o gostau ymgynghorwyr yn gysylltiedig gyda chyflenwi prosiectau ac yn cael eu cyllido drwy grantiau allanol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd mai mantais cyflogi ymgynghorwyr hefyd oedd mai dim ond am gyfnod byr mae eu hangen gan alluogi sefydliad i dalu am y sgil honno ar alw dim ond pan fo'i hangen. Roedd hyn yn aml yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor ac yn osgoi/disodli'r angen i gyflogi staff ychwanegol, gyda gwybodaeth a sgiliau arbenigol, ar sail barhaol.<br><br>Yn ystod 2018/19 a 2019/20 roedd y Cyngor wedi gwario cyfanswm o £0.7m a £1.1m ar ymgynghorwyr ar draws pob gwasanaeth. Mae'r Atodiad yn dynodi'r ymgynghorwyr hynny, y costau a'r rheswm dros eu cyflogi yng nghyswllt portffolio'r Economi.<br><br>Cymeradwyodd Aelod yr esboniad a roddodd y Cyfarwyddwr Cymunedol am ddefnyddio ymgynghorwyr.<br><br>Tanlinellodd Aelod arall bwysigrwydd defnyddio ymgynghorwyr yn ddoeth a dim ond pan oedd yn hollol hanfodol, gan y gwyddai am nifer o achosion lle cyflogwyd ymgynghorwyr ac na chafodd yr adroddiadau dilynol eu defnyddio. Cyfeiriodd hefyd at y costau ymgynghorwyr a gafwyd fel canlyniad i gynlluniau trac profi ac Adfywio a Ffynnu.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nhermau'r darpar safle trac profi a'r cyfle posibl i Flaenau Gwent, y byddai angen mwy o arbenigedd allanol i gefnogi'r prosiect sydd yn brosiect mawr gyda nifer o agweddau a fyddai angen gwybodaeth arbenigol a gwybodaeth o'r diwydiant. Gobeithir y byddai defnydd pellach o ymgynghorwyr ar y prosiect hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid i ni sydd hefyd yn gefnogol i fynd â'r prosiect ymlaen a'r gwaith ychwanegol i ymchwilio cyfleoedd. Fodd bynnag, tanlinellodd mai dim ond am arbenigedd arbenigol neu gapasiti ychwanegol y defnyddid ymgynghorwyr.<br><br>Yn nhermau'r cynllun Adfywio a Ffynnu, cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio a Datblygu y cafodd y cwmni ei ddefnyddio i helpu sefydlu cynnig ar gyfer Rasa a hefyd Tafarnaubach a bod y gwaith hwn yn awr wedi'i orffen.<br><br>Wrth edrych ar y ffigurau dros y 2 flynedd diwethaf, dywedodd Aelod y teimlai fod cyfiawnhad da dros y 17.5% y flwyddyn o gymharu â swm y buddsoddiad a ddaw i'r Fwrdeistref yn nhermau | |

| | | |
|---|---|---|
| | creu swyddi ac adfywio.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr Adran Adfywio yn sicrhau miliynau o bunnau i Flaenau Gwent ac mai dim ond lle roedd eu hangen i ddarparu capasiti ar gyfer y gwaith hwnnw y defnyddid ymgynghorwyr. Roedd yn gysurus y cafodd arian ei wario yn y lle cywir i sicrhau buddsoddiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 24 MAWRTH 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 24 Mawrth 2021.<br><br>Dywwedodd y Swyddog Craffu y byddid yn tynnu'r adroddiad Buddion Cymunedol a rhoi'r adroddiad Academi Sgiliau yn ei le.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad. | |